# Comisiwn y Cynulliad

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr – Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 5 Mawrth 2015** |
| Amser: | **13.00 – 14.00** |

## Cofnodion: AC(4)2015(4)

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Comisiwn: | **Y Fonesig Rosemary Butler AC (Cadeirydd)**<br>**Peter Black AC**<br>**Sandy Mewies AC**<br>**Rhodri Glyn Thomas AC** |
| Swyddogion yn bresennol: | **Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc**<br>**Craig Stephenson, Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau'r Comisiwn**<br>**Dave Tosh, Cyfarwyddwr Adnoddau**<br>**Sulafa Thomas, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn** |
| Eraill yn bresennol: | **Mair Barnes, Cynghorwr Annibynnol** |

## 1 Cyflwyniad

1.1 Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

Roedd Angela Burns AC a David Melding AC wedi anfon eu hymddiheuriadau.

1.2 Datganiadau o fuddiant

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant.

1.3 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Chwefror.

## 2 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddiogelwch

Rhoddodd Dave Tosh y wybodaeth ddiweddaraf am ddiogelwch gan gyfeirio at gwmpas y briff mwy sylweddol ym mis Ebrill.

## 3 Newidiadau TGCh yn y dyfodol – adnewyddu TGCh y Siambr a'r system ffonau

Trafododd y Comisiwn gynlluniau i ddiweddaru'r dechnoleg yn y Siambr. Trafododd bapur a oedd yn nodi'r risgiau a godwyd mewn perthynas â chyflwyno prosiect i adnewyddu TGCh yn y Siambr. Roedd yn rhoi manylion i'r Comisiwn am bryderon ynghylch perfformiad y cyflenwyr caledwedd gan gynnig ffordd ymlaen.

Cytunodd y Comisiynwyr i friffio grwpiau'r pleidiau yr wythnos nesaf.

Trafododd y Comisiynwyr y risgiau a nodwyd a'r angen i sicrhau bod gan y Comisiwn berthnasau da â'r cyflenwyr sy'n cefnogi ein systemau critigol. Cytunodd y Comisiwn i ohirio gweithredu'r prosiect tan 2016.

Rhoddodd Dave Tosh y wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect teleffoni. Cadarnhaodd y canlynol:

- bydd y newid i'r system ffôn newydd ym Mae Caerdydd yn digwydd dros benwythnos 23-25 Mai;
- bydd setiau llaw newydd yn cael eu gosod ar y penwythnos hwnnw i bob defnyddiwr;
- bydd y rhif 0300 newydd yn disodli rhifau 029 20 yn llwyr;
- bydd rhifau 029 20 a'r rhifau estyniad mewnol presennol yn dod i ben. Bydd galwyr allanol yn cael neges yn eu cyfeirio at y switsfwrdd;
- y rhifau estyniad mewnol fydd pedwar digid olaf y rhif 0300;
- Bydd Rheolwyr Cyfrif yn dod i siarad â phob Aelod dros y mis nesaf;
- Y Comisiwn, ac nid Aelodau unigol, fydd yn talu am gostau argraffu angenrheidiol yn sgil newid manylion cyswllt.

Croesawodd y Comisiynwyr y wybodaeth ddiweddaraf gan bwysleisio bod angen atgoffa'n rheolaidd am y newid.

## 4 Pontio i’r Pumed Cynulliad

Cafodd y Comisiynwyr bapur a oedd yn darparu gwybodaeth am gynllunio ar gyfer diddymu’r Pedwerydd Cynulliad a phontio i’r Pumed Cynulliad.

Cadarnhaodd y Comisiynwyr mai eu dull o ran trefniadau i ddiddymu’r Cynulliad fydd sicrhau bod eu staff yn cael gwybodaeth lawn a chynnar i’w galluogi i gynllunio ar gyfer y diddymiad a bod yr Aelodau hynny sy’n rhoi’r gorau iddi yn cael cymorth i’w galluogi i ddirwyn eu gwaith yn y Cynulliad i ben. Teimlodd y Comisiynwyr y byddai’n ddefnyddiol gweithio drwy Grwpiau i gyfathrebu ag Aelodau ac awgrymwyd cynnal sesiynau gyda Grwpiau maes o law.

Pan gaiff y Cynulliad ei ddiddymu, bydd Aelodau yn dychwelyd i fod yn aelodau o’r cyhoedd ar unwaith ac yn colli pob braint sy’n gysylltiedig â bod yn Aelod Cynulliad. Bydd hyn, felly, yn cynnwys cyfyngiadau ar ddefnydd cyn-Aelodau o adnoddau’r Cynulliad yn ystod y cyfnod diddymu.

Roedd Comisiynwyr yn teimlo bod angen ystyried y mater o faint o Aelodau sydd eu hangen i wneud Grŵp yn ystod y Pedwerydd Cynulliad.

Bydd y Comisiwn yn gwneud penderfyniadau penodol yn hwyrach yn 2015, a bydd pecyn y Bwrdd Taliadau o benderfyniadau o ran cydnabyddiaeth a chymorth ariannol yr Aelodau yn y Pumed Cynulliad yn cael ei gadarnhau erbyn mis Mai 2015.

## 5 Diweddariad a Chofnodion y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg - 9 Chwefror 2015

Rhoddodd Claire Clancy grynodeb o gyfarfod Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Cynulliad a gynhaliwyd ar 9 Chwefror, sef cyfarfod diwethaf y Pwyllgor hwnnw cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Roedd Cadeirydd y Pwyllgor yn gallu cadarnhau bod yr holl bwyntiau gweithredu archwilio a oedd yn weddill wedi cael eu cwblhau cyn diwedd y flwyddyn ariannol, ac edrychodd y Pwyllgor ymlaen at y gweithgarwch dros y flwyddyn nesaf.

Croesawodd Comisiynwyr y gwaith a wnaed gan nodi cofnodion y cyfarfod yn ffurfiol.

## 6 Unrhyw fater arall

Diolchodd y Llywydd i'r Comisiynwyr a staff y Comisiwn am y gwaith a wnaed yn y cyfnod cyn datganiad yr Ysgrifennydd Gwladol a oedd yn cyhoeddi cytundeb Dydd Gŵyl Dewi ar ddyfodol datganoli yng Nghymru. Nododd fod y cyflwyniadau manwl a gyflwynwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol, ac adroddiad y Comisiwn ar gapasiti, wedi gwneud gwahaniaeth go iawn.

Hefyd, dywedodd y Llywydd wrth y Comisiynwyr, gan fod Angela Burns yn wynebu absenoldeb estynedig, y byddai David Melding yn ymgymryd â'i chyfrifoldebau fel Comisiynydd tra'i bod yn absennol.

Tynnodd Claire Clancy sylw at ymgynghoriad y Bwrdd Taliadau, a fyddai'n cael ei gyhoeddi y diwrnod canlynol, a dywedodd wrth y Comisiynwyr fod y Pwyllgor Cyllid wedi adrodd ar y gyllideb atodol.

Bydd y Comisiwn yn cyfarfod nesaf ddydd Iau 23 Ebrill 2015, pan fydd y Comisiynwyr yn ystyried y Strategaeth Gyllideb ar gyfer 2016-17 ac yn cael briff diogelwch llawn.